# Ymgynghoriad ar Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful a Chynlluniau Gweithredu Cysylltiedig

## Crynodeb Gweithredol

Cafodd y Strategaeth Mannau Agored a Chynlluniau Gweithredu ei baratoi gan Adran Cynllunio Trefol y Cyngor yn unol â Chynllunio Polisi Cymru (Rhifyn 8, 2016) a Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009). Yn absenoldeb canllaw manwl i Gymru ynghylch paratoi strategaethau o'r fath, dilynwyd canllawiau'r Comisiwn Pensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig â'r teitl '*Strategaethau Mannau Agored – Canllawiau am Arfer Orau'.*

Mae'r Strategaeth yn darparu trosolwg o'r gwaith cefndir yr ymgymerwyd ag ef, yn dynodi mannau agored lleol pwysig, yn amlygu'r sefyllfa sylfaenol ar gyfer darparu mannau agored ac yn gosod y safonau sydd i'w cyflawni. Caiff y themâu allweddol, *iechyd, a lles, yr economi a'r amgylchedd* hefyd eu gosod allan yn y Strategaeth, ynghyd â'r amcanion canlynol:

- Gwella iechyd a lles cymunedau lleol ym Merthyr Tudful drwy gynyddu cyfleoedd i breswylwyr wella eu hiechyd corfforol ac iechyd meddwl gyda gwell mynediad at fannau agored.
- Codi proffil Merthyr Tudful drwy welliannau yn y mannau agored a balchder ynddynt, gan felly wella'r cysyniad allanol o'r ardal ar gyfer buddsoddi mewnol.
- Gwella'r amgylchedd naturiol a'r bioamrywiaeth drwy gynyddu ardal gynefin a chyfleoedd i symudiad rhywogaethau.
- Datblygu rhwydwaith o isadeiledd gwyrdd ble mae yna gysylltedd rhwng gwahanol fathau o fannau agored o ansawdd da sydd gyda'i gilydd yn galluogi cyflawni aml-fuddiannau.

Mae'r Cynlluniau Gweithredu, sydd wedi eu paratoi ar gyfer pob un o'r un ar ddeg ward o fewn y Fwrdeistref Sirol, yn ystyried y tair safon (Maint, Ansawdd a Hygyrchedd) ac yn dynodi cyfres o brif safleoedd ble, wrth gynnwys mathau ychwanegol o fannau agored o fewn darpariaeth gyfredol, y gellir mynd i'r afael â diffygion. Y mannau mwy o faint yw'r rhain yn aml, a leolir oddi fewn i bob cymuned. Pan nad oes yna ddigon o gapasiti neu nad oes safle ar gael, argymhellir chwilio am safle newydd os yw hynny'n ymarferol.

Caiff pob prif fan ei chefnogi gan Fframwaith Rheoli'r dyfodol a fydd yn gosod allan mewn rhagor o fanylder sut y gallai ail-ffurfweddu adnoddau, drwy newid rheolaeth, arwain at arbedion cost o ran cynnal a chadw cyfredol a denu arian allanol posibl wrth asesu'r anghenion sydd wedi eu dynodi oddi fewn i'r Strategaeth.

Caiff y Strategaeth a'r Cynlluniau Gweithredu eu defnyddio i lywio a helpu i ddehongli polisïau cynllun datblygu lleol y Cyngor mewn perthynas â darparu man agored mewn datblygiadau newydd a diogelu man agored sy'n bodoli. Byddant

hefyd yn cael eu defnyddio i lywio rheolaeth o safle’r mannau agored, ac fel mecanwaith ar gyfer cyfarwyddo ariannu i safleoedd priodol ble y gellir gwneud gwelliannau i faint, ansawdd a hygyrchedd y mannau agored.